




Prif Gwrs Cwestiynau 3 marc



1. Mae Levi yn gwerthu bagiau o greision. Mae'n gwerthu bag o greision am £1.68. Mae'n gwneud elw o 12% ar bris cost (*cost price*) bag o greision. Mae'n prynu'r bagiau o greision mewn bocsys. Mae pob bocsys yn cynnwys 10 bag o greision. Cyfrifwch bris cost bocsys o greision.



2. Mae cwmni peirianneg yn gwneud darnau metel ar gyfer peiriannau. Mae'r diagram isod yn dangos y dyluniad ar gyfer disg hollt (*split-disc*). Mae'r disg hollt wedi ei luniadu fel dau gylch cydganol (*concentric*), gyda phob un â chanol O . Mae OAB ac ODC yn llinellau syth.




Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Rydych chi'n gwybod bod $\widehat{AOD} = 142^\circ$ a bod $OA = AB = 1.8$ cm. Mae angen i'r cwmni wybod arwynebedd yr arwyneb wedi'i dywyllu (*shaded*) $BCDA$. Cyfrifwch yr arwynebedd hwn.



3. Cilydd (*reciprocal*) buanedd golau wedi'i sgwario yw 2.22×10^{-18} . Darganfyddwch fuanedd golau yn y ffurf safonol yn gywir i ddau ffigur ystyrlon.
4. Mae'r histogram isod yn dangos buaneddau modurwyr wrth iddyn nhw fynd i mewn i dwnnel rhwng 1 a.m. a 2 a.m.

Dwysedd amlder




Y terfyn buanedd (*speed limit*) wrth fynd i mewn i'r twnnel yw 70 m.y.a. (*m.p.h.*). Faint o fodurwyr oedd yn uwch na'r terfyn buanedd wrth fynd i mewn i'r twnnel?

5. Mynegwch 936 fel lluoswm rhifau cysefin ar ffurf indecs.
6. O wybod bod $f = \sqrt{2}$, $g = \sqrt{5}$ ac $h = \sqrt{10}$, darganfyddwch, ar ei ffurf symlaf, (a) $\frac{fg}{h}$, (b) $fg + h$, (c) fh .
7. O wybod bod y mewn cyfrannedd wrthdro ag x , a bod $y = 50$ pan fo $x = 2$, darganfyddwch fynegiad ar gyfer y yn nhermau x .



8. Mae'r diagram yn dangos triongl ongl sgwâr.



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

- (a) Cyfrifwch werth x .
- (b) Cyfrifwch faint ongl y .




9. Prynodd Boris gar ym Moscow am 251,850 o rwblau Rwsia (*Russian roubles*). (i) Bob blwyddyn, mae gwerth car Boris yn dibrisio 10% o'i werth ar ddechrau'r flwyddyn. Ar ddiwedd dwy flynedd, faint mae gwerth car Boris wedi dibrisio? (ii) Y gyfradd gyfnewid am rwblau Rwsia pan brynodd Boris ei gar oedd £1 = 50.37 o rwblau Rwsia. Ar yr un pryd, prynodd Angharad gar yng Nghymru. Talodd Angharad £5250 am ei char. Faint yn fwy na Boris wnaeth Angharad ei wario ar brynu ei char hi? Rhowch eich ateb mewn punnoedd.
10. Enillodd Manilo ryw faint o arian. Rhoddodd $\frac{1}{24}$ o'r arian a enillodd i bob un o'i ffrindiau agos. Cadwodd y gweddill sef $\frac{2}{3}$ o'r arian iddo'i hun. Faint o ffrindiau agos sydd gan Manilo?



Pwdinau Cwestiynau 2 farc



1. Mynegwch $0.86\bar{4}$ fel ffracsiwn.
2. Amcangyfrifwch werth $\frac{43.3 \times 49.8}{200}$.
3. Ysgrifennwch werth un hanner $3\frac{1}{2}$.
4. Mynegwch $\frac{12}{99}$ fel degolyn cylchol (recurring).
5. Darganfyddwch hafaliad y llinell syth sy'n cael ei dangos yn y diagram canlynol. Ysgrifennwch eich ateb ar y ffurf $y = mx + c$.



6. Darganfyddwch rannnydd cyffredin mwyaf 105 a 180.
7. O wybod bod $f = -3$, $g = 2$ ac $h = 5$ darganfyddwch werth $\frac{f^2 - h}{g}$.
8. Ehangwch $2x(x + 6)$.



Diodydd Cwestiynau Amrywiol



1. Cyfrifwch $\frac{2}{5} + \frac{3}{4}$.
2. Symleiddiwch $5p - 3q - 8p - 7q$.
3. Lluniwch gylch. Ychwanegwch gord, tangiad a sector iddo.
4. Cyfrifwch gylchedd ac arwynebedd cylch â radiws o 8.3cm.
5. Newidiwch $4m^2$ i fod mewn cm^2 .
6. Mae nifer o fyrddau ar werth mewn siop hen bethau.

Pris, £x	Nifer y byrddau
$50 \leq x < 100$	6
$100 \leq x < 150$	10
$150 \leq x < 200$	4

Cyfrifwch amcangyfrif ar gyfer pris cymedrig bwrdd yn y siop hen bethau hon.

7. Mynegwch $100^{-\frac{1}{2}}$ fel ffracsiwn.
8. Cyfrifwch 75% o £562.80.
9. Enrhifwch $3\frac{2}{5} \times 1\frac{2}{3}$.
10. Mae Deiniol yn teithio 3km i'r Gogledd, yna 4km i'r Gorllewin. Pa mor bell o'i fan cychwyn yw Deiniol?
11. Sawl fertig, ymyl ac wyneb sydd gan tetrahedron?
12. Beth yw perimedr petryal sy'n mesur 4cm wrth 7cm?
13. Dyma hoff liwiau dosbarth 9C:
Coch 8 Glas 6 Melyn 3 Pinc 5 Piws 2.
Lluniadwch siart cylch i ddangos hoff liwiau dosbarth 9C.

Bwydlen Mathemateg

Haen Uwch



Cwrs Cyntaf Cwestiynau 1 marc



1. Ysgrifennwch 652000 yn y ffurf safonol.
2. Mesurwyd lled popty fel 65cm, yn gywir i'r cm agosaf. Beth yw lled lleiaf posib y popty?
3. Beth yw 9^0 ?
4. Talgrynnwch 0.002758 i 2 ffigur ystyrlon.
5. Pa rif sy'n dod nesaf? 2, 5, 10, 17, 26,
6. Datrysych yr hafaliad $3x = 12$.
7. Pa fath o ongl yw'r ongl 165° ?
8. Beth yw modd y rhifau 5, 2, 9, 2, 5, 6?
9. Rhowch enghraifft o rif anghymarebol sydd â'i sgwâr yn gymarebol.
10. Disgrifiwch, mewn geiriau, y rheol ar gyfer parhau'r dilyniant rhif 48, 12, $3\frac{3}{4}$, ...
11. Cyfrifwch 534×8 .
12. Beth yw cyfanswm onglau mewnol unrhyw driongl?
13. Symleiddiwch $3p^6 \times 5p^5$.
14. Lluoswm dau rif yw 77. Swm y ddau rif yw 18. Beth yw'r ddau rif?